

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	19 Chwefror 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	6 Mawrth 2019

---

**PWNC**

Eitem 6:ADOLYGU CYNLLUN Y CYNGOR 2018-23

---

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo Cynllun y Cyngor 2018-23 (Adolygiad 2019/20) i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 7fed o Fawrth

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyn cyflwyno'r Cynllun i'r Cyngor Llawn mae angen sicrhau fod y Cabinet yn cytuno a'r cynnwys a'i fod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	19 Chwefror 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	6 Mawrth 2019

---

### PWNC

Eitem 7: STRATEGAETH GOFALWYR GOGLEDD CYMRU

---

### PENDERFYNIAD

Ystyried a derbyn y Strategaeth Gofalwyr a sicrhau fod trefniadau addas yn eu lle i fonitro perfformiad y Cyngor yn erbyn y mesurau o fewn y strategaeth.

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae dyfodiad y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi sicrhau hawliau i ofalwyr a symleiddio a chyfuno'r gyfraith, gan roi hawliau cyfartal iddynt am y tro cyntaf a'r unigolyn sydd yn derbyn y gofal.

Mewn ymateb i hyn, mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi llunio strategaeth sy'n cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda'r gofalwyr o bob oedran drwy eu cysylltu â gwasanaethau, ac yn nodi'r 'cynnig' dylai pob gofalwr ei ddisgwyl.

Mae'n strategaeth sydd wedi ei lunio yn rhanbarthol ac angen ei fabwysiadu yn lleol.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

### UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	19 Chwefror 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	6 Mawrth 2019

---

### PWNC

Eitem 8:CYLLIDEB 2019/20

---

### PENDERFYNIAD

(a) Argymhell i'r Cyngor (yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019) y dylid:

1. Sefydlu cyllideb o £248,013,890 ar gyfer 2019/20 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £176,551,790 a £71,462,100 o incwm o'r Dreth Cyngor gyda chynnydd o 5.8%.
2. Ychwanegu £18,316,130 at y rhaglen gyfalaf i'w wario yn 2019/20 er mwyn sefydlu rhaglen gyfalaf gwerth £34,991,250 erbyn 2019/20 i'w ariannu o'r ffynonellau a nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad.

(b) Cymeradwyo symud ymlaen i weithredu'r rhestr cynlluniau arbedion sy'n Atodiad 3 oni bai am 8 cynllun sef:

- Cynllun 4.4 – Parcio am ddim dros y Nadolig
  - Cynllun 4.19 - Codi ffi am finiau wedi'u difrodi
  - Cynllun 6.2 – Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion
  - Cynllun 6.11 - Lleihau'r Llyfrgell Deithiol
  - Cynllun 6.16 – Grantiau i'r Celfyddydau
  - Cynllun 6.17 – Cronfa Llyfrau'r Llyfrgelloedd
  - Cynllun 6.22 – Cymorth i Ferched
  - Cynllun 6.25 - Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid
- er mwyn sefydlu'r gyllideb argymhellir i'r Cyngor llawn.

(c) Nodi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canol

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae angen i'r Cyngor osod Cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 a phennu lefel Treth Cyngor. Y Cabinet sydd yn argymhell y rhain i'r Cyngor Llawn benderfynu.

Mae'r strategaeth yn ceisio gwarchod y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i bobl Gwynedd ac yn argymhell cynnydd yn y Dreth Cyngor er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw eleni. Wrth sicrhau arbedion, bwriedir eu cyflawni yn y lleoedd hynny fydd yn cael yr

---

---

ardrawiad lleiaf ar ein pobl.

---

## **DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Gareth Thomas pan ddaeth i'r amlwg fod rhai o elfenau o arbedion Llyfrgelloedd yn cael eu trafod gan fod ei fab yng nghyfraith yn gweithio yn y maes. Mynegodd y Cyngorydd nad oedd yn eitem a oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod.

---

## **UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Mae ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal ac mae'r ymatebion i'w gweld yn atodiad 11 o'r adroddiad.

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET  
CYNGOR GWYNEDD**

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	19 Chwefror 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	6 Mawrth 2019

---

**PWNC**

Eitem 9: CYNLLUN ASED AU CORFFORAETHOL 2019-29

---

**PENDERFYNIAD**

- a) Er mwyn osgoi ôl groniat cynnal a chadw pellach yn ein hadeiladau, ein bod yn trosglwyddo'r gyllideb o £1.1m a roddwyd o'r neilltu ar gyfer ariannu benthyciadau yn y cynllun asedau blaenorol i atgyfnerthu'r gyllideb referniw cynnal a chadw adeiladau
- b) Bod y cabinet yn derbyn yr argymhellion a wneir yng nghymalau 28; 30; 32; 35; 40; 43 a 44 o'r adroddiad
- c) Mabwysiadu'r Cynllun Asedau (atodiad 1 o'r adroddiad) sy'n ymgorffori'r holl ganlyniadau a nodi'r uchod.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae Cynllun Asedau presennol bellach wedi dod i ben ac mae angen datblygu un newydd ar gyfer cyfnod 2019/20 - 2029.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU  
PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---

## TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:</b>	19 Chwefror 2019
<b>Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym</b> ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd	6 Mawrth 2019

---

### PWNC

Eitem 11:CONTRACT CWMNI BYW'N IACH CYF

---

### PENDERFYNIAD

- 1) Derbyn yr adroddiad a chadarnhau fod y cabinet yn fodlon fod y trosglwyddiad arfaethedig yn parhau i gyfarch yr Achos Busnes a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 5ed Hydref 2017
- 2) Dirprwyo'r hawl i Bennaeth Adran Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a Phennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid:
  - I. I gwblhau'r dogfennau cytundebol, Prydlesi ac unrhyw ddogfennaeth gyfochrog neu wasanaethol sydd yn angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo'r Gwasanaeth
  - II. I gytuno neu wneud unrhyw addasiadau pellach sydd yn angenrheidiol i gyflawni'r trosglwyddiad o fewn yr Achos Busnes

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn Hydref 2017, bu i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn gymeradwyo'r Achos Fusnes dros sefydlu Cwmni, cyfyngedig drwy warrant, wedi ei reoli gan y Cyngor, I ddarparu cyfleusterau hamdden yng Ngwynedd.

Bellach mae Cwmni Byw'n Iach Cyf, wedi ei sefydlu gyda 6 o gyfarwyddwr cwmni. Mae'r ffrydiau gwaith o sefydlu a throsi'r gwasanaeth i weithredu fel cwmni yn dirwyn i ben a'r bwriad yw trosglwyddo'r gwasanaeth i gyfrifoldeb y cwmni o'r 1af Ebrill 2019.

Mae'r gwaith o baratoi'r ar hyn wedi bod ar waith ers rhai misoedd, ac mae'r ddogfennaeth yn cael ei greu ar gyfer trosglwyddo. Er mwyn symud ymlaen a'r trosglwyddiad mae angen cadarnhau fod yr Achos Busnes yn parhau yn gyfredol a bod y Cabinet yn fodlon symud ymlaen a'r trosglwyddiad.

---

### DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

---

---

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad

---